



Uchafbwyntiau Cymru 2017/18

Gweithio dros Gymru

Mae Ystâd y Goron yn rheoli asedau morol a gwledig ar draws Cymru. Gweithredwn fusnes pwrpasol gyda gwerthoedd cryf ac ymdeimlad clir o'r gwahaniaeth cadarnhaol y gallwn ei wneud. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at beth o'r cynnydd a wnaethom yn 2017/18.



Fferm wynt Gwynt y Môr, oddi ar arfordir gogledd Cymru

Lleoedd gwych drwy fasnacheiddiwch ymwybodol

Mae ein diben yn ein hysbrydoli i geisio adenillion ariannol cryf tra'n ystyried bob amser sut y cynhaliwn fusnes, yn cynnwys ein heffeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor. Caiff ein hymagwedd at reoli asedau yng Nghymru ei lunio gan ein gwerthoedd, a'i seilio mewn gweithio partneriaeth. Rydym yn cydweithredu gydag ystod amrywiol o sefydliadau fel y gallwn gyda'n gilydd sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cydweithio gyda Llywodraeth Cymru, deall ei nodau a gweithio gyda nifer o adrannau ar flaenoriaethau a gaiff eu rhannu. Er enghraifft, rydym yn rhan o'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol, ac yn darparu data ac arbenigedd i helpu gyda datblygu a gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

Yn ychwanegol, rydym yn parhau i fwynhau perthynas waith gref gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae ein perthynas yn seiliedig ar Femorandwm Dealltwriaeth, a lofnodwyd yn 2015. Mae hyn yn tanlinellu ei hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth lle mae gennym ddaliadau i sicrhau y caiff adnoddau naturiol Cymru eu rheoli mewn modd cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor.

Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o weithgorau a grwpiau ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys aelodaeth o Grŵp Gweithredu ac Ymgynghori Morol Cymru, a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig, i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig a rhannu gwybodaeth ar draws prosiectau morol.

Meysydd cyfrifoldeb

Mae ein cyfrifoldebau yng Nghymru yn cynnwys gwely'r môr hyd at 12 milltir forol. Mae hyn yn golygu fod gennym fuddiannau mewn ynni adnewyddadwy, pibellau olew a nwy, codi agregau morol, telegyfathrebu a cheblau ynni.


Yn ychwanegol, mae gennym hawliau i'r adnoddau ar y silff gyfandirol, megis adnoddau naturiol ac ynni ar y môr, ond yn eithrio tanwyddau ffosil. Rydym hefyd yn rheoli tua 65 y cant o flaendraeth Cymru.

Yn dilyn adolygiad strategol rheolaidd o'r portffolio, fe wnaethom werthu Marina Deganwy ar aber yr afon Conwy yng Ngogledd Cymru i Lakeland Leisure Estates, sy'n arbenigo yn y sector. Rydym yn parhau i ymchwilio cyfleoedd i dyfu ein busnes ac ar yr un pryd hyrwyddo'r diwydiant dyframaeth ac arallgyfeirio defnyddiau morol mewn lleoliadau allweddol, drwy weithio a chydweithredu gyda rhanddeiliaid a busnesau lleol allweddol.

Ar y tir, rydym yn berchen ar tua 27,800* hectar (68,700 erw) o dir comin yng Nghymru, sydd yn bennaf yn dir garw ar gyfer pori ond sydd hefyd yn gweithredu fel adnodd naturiol pwysig sy'n cael ei fwynhau gan bawb sydd â diddordeb yng nghefn gwlad Cymru. Mae daliadau ychwanegol yn cynnwys porthladdoedd a marinas.

Rydym hefyd yn gyfrifol am tua 100,000 hectar (247,000 erw) o fuddiannau mwynau yn unig, gyda deg safle ar hyn o bryd ar les i gloddio mwynau. Yn ychwanegol, rydym yn berchen adneuo aur ac arian, a elwir yn Fwyngloddiau Brenhinol, ble bynnag y byddant yn cael eu canfod yn y Deyrnas Unedig, ac mae gennym ddwy les yn eu lle ar gyfer mwyngloddio aur yng Nghymru.

*Mae hyn yn newid bach ar y ffigur a roddwyd yn adroddiad 2016/17. Mae hyn oherwydd diweddarau mesuriad perchenogaeth tir presennol, ac nid oherwydd perchenogaeth tir newydd.



Caiff ein hymagwedd at reoli asedau yng Nghymru ei lunio gan ein gwerthoedd, a'i seilio mewn gweithio partneriaeth. Rydym yn cydweithredu gydag ystod amrywiol o sefydliadau fel y gallwn gyda'n gilydd sicrhau canlyniadau cadarnhaol."



Cronfa Nant-y-moch, ym mynyddoedd y Cambrian yng nngogledd Ceredigion

Cefnogi ynni adnewyddadwy ar y môr

Fel rhan o'n cylch gorchwyl i reoli gwely'r môr o amgylch Cymru, rydym yn parhau i weithio wrth ochr llywodraeth, diwydiant ac ystod eang o bartneriaid i chwarae rôl weithgar wrth ddatgloi potensial ynni ar y môr.

Bu'r flwyddyn flaenorol yn un bwysig i sector gwynt ar y môr y Deyrnas Unedig, sy'n arwain y byd. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd gan y Deyrnas Unedig 7.5GW o wynt ar y môr yn gweithredu yn cyflenwi anghenion trydan 5.3 miliwn o gartrefi. Roedd gan fferm wynt 576MW, Gwynt y Môr, oddi ar arfordir gogledd Cymru ac un o'r ffermydd gwynt gweithredol mwyaf yn y byd, ran sylweddol yn hyn ac mae wedi Cymru ar flaen y sector hwn sy'n tyfu'n gyflym.

Ym mis Tachwedd 2017 fe wnaethom gyhoeddi cynlluniau i weithio gyda'r sector gwynt ar y môr a rhanddeiliaid i ystyried gwneud hawliau gwely môr newydd ar gael i ddatblygwyr ar draws Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Byddai hyn yn gam pwysig tuag at greu cyfleoedd newydd i ddatgloi potensial ynni gwynt ar y môr yng Nghymru, a chefnogi dyfodol ynni glân y Deyrnas Unedig.

Mae gan Gymru hefyd potensial sylweddol am ynni tonnau a llanw. Rydym wedi parhau i chwarae rôl wrth gefnogi'r sector drwy ddyfarnu hawliau gwely'r môr yn ogystal â chydweithio gyda diwydiant i drin heriau cyffredin a rhannu arfer gorau. Fel rhan o'r gwaith hwn cynigiwn gyfle i gael mynediad i wely'r môr ar gyfer prosiectau o hyd at 3 MW neu brosiectau cerrynt llanw o hyd at 30 MW.

Rhannu gwybodaeth

Mae dod â rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant ynghyd i rannu gwybodaeth ac arfer gorau yn ganolog i'n hymagwedd hirdymor at reoli asedau.

Mae ein Cyfnewidfa Data Morol yn parhau i dyfu gyda rôl bwysig wrth wneud cyfoeth o ddata arolwg morol ar gael i'r cyhoedd.

Mae data ar gael i unrhyw un ei lawrlwytho, am ddim, ac mae'n cynnwys deunydd amgylcheddol, megis arolygon adar a mamaliaid; gwybodaeth am adnoddau o ymgyrchoedd casglu data meteoroleg

a meteinoneg; a data arolygon ffisegol, megis data geodechnegol a geoffisegol. Trwy sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn rhwydd, rydym yn helpu i ysgogi ymchwil, cefnogi'r byd academaidd a chyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy gwely'r môr o gwmpas arfordir Cymru.

Yn 2017/18, gwelodd y Gyfnewidfa Data Morol gynnydd o 30% mewn data sydd ar gael i'r cyhoedd o brosiectau adnewyddadwy ar y môr yng Nghymru a chyhoeddwyd 60% o holl ddata arolygon o brosiectau adnewyddadwy ar y môr yn nyfroedd Cymru ar www.marinedataexchange.co.uk.

Wrth i'r sector ar y môr barhau i dyfu, mae sicrhau y caiff ymchwil a gwybodaeth am ynni morol ei gydlyn yn gam pwysig wrth adeiladu sector cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor. Ynghyd â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill yn y diwydiant, rydym yn parhau i gefnogi Rhaglen Cyd-ddiwydiant Adnewyddadwy Ar y Môr (ORJIP) ar gyfer Ynni Môr.

Mae'r rhaglen hon yn dod â diwydiant, rheoleiddwyr, ymchwilwyr a chyllidwyr ynghyd fel y gellir trin risgiau cydsynio'r sector mewn modd strategol a chydgyssylltiedig. Mae hyn yn osgoi dyblygu gwaith ac, yn ei dro, yn helpu i ostwng oedi wrth gyflenwi prosiectau.

Bu ORJIP Ynni Môr yn ganolog wrth ddynodi a lledaenu blaenoriaethau ymchwil amgylcheddol strategol ac ar draws y diwydiant. Yn 2017, trefnodd Weithdy Amrediad Llanw ynghyd â Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) i drafod a deall yn well yr heriau amgylcheddol a rheoleiddiol sy'n gysylltiedig gyda'r sector.

Agregau morol

Ystâd y Goron sy'n gyfrifol am drwyddedu codi agregau lle'r ydym yn rheoli gwely'r môr. Mae agregau morol yn adnodd bwysig i Gymru, gan ffurfio tua 70% o werthiannau tywod a gro yn Ne Cymru. Yn 2017, cynyddodd cyfanswm tunelli metrig yr agregau morol a gyflenwyd i borthladdoedd Cymru gan 2% i 650 kt, gyda 375 kt ohono yn cael ei dynnu o ddyfroedd Cymru.

Eleni fe wnaethom gyfrannu gwybodaeth at ddatblygiad polisi diwygiedig gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ar godi agregau morol. Cyhoeddwyd hyn ar gyfer ymgyngoriad fel rhan o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru ym mis Ionawr 2018 a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r ddau sefydliad ar ei weithrediad.


Rydym wedi parhau i weithio i ddatblygu Rhaglen Fonitro Ranbarthol Gwely'r Môr (RSMP). Mae'r RSMP yn cynnwys asesiad o ddata diwydiant yn ymwneud â chymunedau anifeiliaid gwely'r môr o nifer fawr o samplau yn deillio o ffynonellau lluosog ac a gyflwynir ar sail ranbarthol. Bydd yn arwain at reolaeth fwy effeithlon, datrysiadau monitro arloesol a rhatach a dull mwy amgylcheddol gynaliadwy at reoli gweithgareddau yn yr amgylchedd morol.

Datblygwyd y rhaglen mewn cysylltiad gyda Chanolfan Gwyddor yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaeth (Cefas), Llywodraeth Cymru, Adran yr Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Sefydliad Rheoli Morol (MMO) a Chymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain (BMAPA).

Uchafbwyntiau Cymru 2017/18

Uchafbwyntiau ariannol

Refeniw yn ôl gweithgaredd 2018 £m



Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd 2018 £m



Ystâd y Goron yng Nghymru

	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2018 £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2017 £m	Cyfanswm Ystâd y Goron Cymru Gweithrediadau Parhaus Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2018 £m	Cyfanswm Ystâd y Goron Cymru Gweithrediadau Parhaus Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2017 £m	Cynnydd/ (gostyngiad) o'r flwyddyn flaenorol %	Canran o'r cyfanswm %
Refeniw	8.0	7.3	421.9	401.6	8.9	1.9
Gwarged gros	7.7	7.1	361.9	351.0	8.8	2.1
Gwerth eiddo	95.2	88.6	11,920.0	11,267.8	7.4	0.8
Buddsoddiadau cyfalaf	0.4	0.2	273.8	563.0		
Derbyniadau cyfalaf	4.8	0.5	415.7	524.7		

	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2018 £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2017 £m	Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2018 £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2017 £m
Refeniw yn ôl gweithgaredd					
Arfordirol	1.6	1.7	Arfordirol	17.0	18.5
Ceblau/pibelli	0.2	0.1	Ceblau/pibelli	2.2	1.9
Amaethyddiaeth	0.1	0.1	Amaethyddiaeth	2.5	4.1
Coedwigaeth	-	-	Coedwigaeth	0.1	0.1
Mwynau	0.7	0.8	Mwynau	6.2	5.5
Treillio	0.0	-	Treillio	-	-
Cyfanswm Gwledig ac Arfordirol	2.5	2.7	Cyfanswm Gwledig ac Arfordirol	28.0	30.1
Ceblau/pibelli	1.0	0.9	Ceblau/pibelli	10.6	10.5
Treillio	0.7	0.5	Treillio	6.1	5.2
Adnewyddadwy	3.7	3.2	Adnewyddadwy	50.5	42.8
Cyfanswm Ynni, Mwynau a Seilwaith	5.4	4.6	Cyfanswm Ynni, Mwynau a Seilwaith	67.2	58.5
Manwerthu Rhanbarthol	-	-	Manwerthu Rhanbarthol	-	-
Cyfanswm	8.0	7.3	Cyfanswm	95.2	88.6

Gwybodaeth

Ar-lein
www.thecrownestate.co.uk

Cyhoeddiadau
Adroddiad Blynyddol 2017/18
Uchafbwyntiau Cymru 2017/18

Llundain
The Crown Estate
1 St James's Market, Llundain,
SW1Y 4AH
Ff 020 7851 5000

Cyfrngau cymdeithasol a diweddariadau
Dilynwch ni ar Twitter:
@TheCrownEstate